**ADRODDIAD I'R CABINET**
7 Hydref 2014

**Aelod Cabinet:** Cynghorydd Peredur Jenkins

**Pwnc:** Strategaeth Ariannol – Targed arbedion ar gyfer ysgolion

**Swyddog cyswllt:** Dilwyn Williams, Cyfarwyddwr Corfforaethol

---

## Y penderfyniad a geisir

Y dylid gosod targed arbedion o £4.3m ar gyfer ysgolion i'w gyflawni dros y tair blynedd nesaf, gan ofyn i'r Aelod Cabinet dros Addysg arwain darn o waith drwy gydweithio gyda'r Fforwm Cyllido Ysgolion i ddatblygu cynlluniau ar gyfer gwireddu'r targed hwnnw.

---

## Cyflwyniad

1. Mae'r Cyngor wedi cytuno gyda bwriad y Cabinet i gynllunio ar gyfer darganfod arbedion gwerth £34m ychwanegol dros y 3 blynedd nesaf er mwyn ymateb i'r hinsawdd ariannol yr ydym yn debygol o'i wynebu.

2. Mae'n eithaf posibl na fydd y ffigwr yma yn ddigonol bellach yn wyneb datganiadau diweddar gan Lywodraeth Cymru ynglyn â dyfnder y gostyngiadau grant (ynghyd a chostau eraill sylweddol ychwanegol sy'n dechrau amlygu eu hunain).

3. Yn y darlun enghreifftiol a luniwyd ar gyfer darganfod y £34m yma, fe awgrymwyd y gallasem anelu i ddarganfod y bwlch drwy'r drefn ganlynol –

| | |
|---|---|
| Polisi Treth Gyngor<br>**(£2.5m ?)** | Ystyried cynnydd yn y Dreth Gyngor mewn amrediad o 3.5% - 5% |
| Y gyllideb ysgolion<br>**(£4.3m?)** | Ystyried rhoddi targed i'r gyllideb ysgolion yn seiliedig ar beth sy'n ymarferol. |
| Y Comisiwn ar Lywodraethu<br>**(£3.0m ?)** | Ystyried a fydd yna arbedion yn deillio o ad-drefnu y gellir dibynnu arnynt a chymryd i |

| | |
|---|---|
| | ystyriaeth. |
| Arbedion Effeithlonrwydd **(£15m ?)** | Uchafu'r arbedion effeithlonrwydd y gellir eu gwireddu |
| Toriadau **(£9.2m ?)** | Ffigwr fydd ar ôl |

4. Rhaid cofio fod darganfod arbedion effeithlonrwydd o £15m yn mynd i fod yn hynod o heriol heb son am weithredu toriadau o £9m.

5. O gofio fod holl wasanaethau eraill y Cyngor yn wynebu sefyllfa heriol dros ben gydag elfennau ohonynt dan fygythiad sylweddol, ac o ystyried fod y gyllideb ysgolion yn cynrychioli tua 35% o gyllideb holl wasanaethau'r Cyngor, os na fyddwn yn gofyn i'r ysgolion chwarae eu rhan yn yr her sydd o'n blaenau, fe allasai'r ardrawiad ar wasanaethau eraill hanfodol y Cyngor fod yn annioddefol.

6. Fel y gwelir uchod, er mwyn medru cyflawni'r strategaeth wreiddiol yma fe ragdybiwyd y dylem anelu i gyflawni tua £4.3m o arbediad o'r gyllideb ysgolion (sy'n cyfateb i tua 6% dros y 3 blynedd i ddod) ond mae'n rhaid i ni ddod i gasgliad nawr ynglŷn â'r targed yr ydym am ei osod, fel bod modd i'r gwasanaeth ddechrau cynllunio.

7. Byddai gosod targed o £4.3m neu 6% yn parhau i roddi gwarchodaeth i ysgolion o'i gymharu gyda gwasanaethau eraill. Gellir ei gymharu gyda'r targed arbedion effeithlonrwydd a osodwyd ar gyfer gwasanaethau eraill allweddol fel a ganlyn –

   - Gwasanaeth Plant – 16.8%
   - Gwasanaeth Addysg Canolog – 16.4%
   - Gwasanaeth Henoed – 14.4%

8. Rhaid cofio hefyd y gallasai'r effaith ar y gwasanaethau yma fod yn waeth gan y bydd angen sefydlu hefyd ymhle y bydd y toriadau yn disgyn ac fe allasai elfen ddisgyn yn y meysydd yma.

9. Dylid gosod y targed hefyd yng nghyd destun sefyllfa lle na gofynnwyd i'r gyllideb ysgolion ddarganfod unrhyw arbedion dros y tair blynedd diwethaf.

10. Beth bynnag fydd y targed a osodir ar gyfer ysgolion, bydd angen sicrhau fod yna drefn gynhwysol ar gyfer gadael i'r gwasanaeth ei hun

ddylanwadu ar sut y dylid cyflawni'r arbediad, ac argymhellir fod hynny yn digwydd drwy'r Fforwm Cyllido Ysgolion.

11. Rhaid bod yn fyw i'r ffaith wrth osod y targed ein bod yn rhagweld ar hyn o bryd y bydd cyllideb y sector Uwchradd yn gostwng tua £650,000 beth bynnag yn y ddwy flynedd nesaf oherwydd effeithiau demograffi tra bydd cyllideb y sector gynradd yn debygol o gynyddu tua £250,000. Ni wyddom eto beth yw ein tafluniadau demograffi ar gyfer y drydedd flwyddyn.

12. Mae'r sector Uwchradd hefyd yn wynebu gostyngiad yn eu cyllideb yn 2015/16 oherwydd y bydd y cymorth ychwanegol o £410,000 a roddwyd iddynt i ddygymod gyda cholled grantiau yn disgyn allan.

13. Fodd bynnag, mater i'r gwasanaeth fydd ystyried y ffactorau hynny wrth ddatblygu cynlluniau yn y gwahanol sectorau i ddygymod a'r targed.

**Opsiynau ac argymhelliad**

14. Mae yna nifer o opsiynau y gallai'r Cabinet ei ystyried o ran y targed a'r rhai mwyaf amlwg yw -

    a) Gosod targed o £4.3m yn unol â'r syniad gwreiddiol;
    b) Gosod targed is gan dderbyn y byddai angen i wasaanethau eraill wynebu byrdwn uwch;
    c) Gosod targed uwch er mwyn lleihau'r ardrawiad ar wasanaethau eraill.

15. Wrth ystyried y cyfleoedd sydd ar gael i'r gwasanaeth leihau gwariant, yn amlwg bydd yn rhaid i'r gwasanaeth asesu'r cyfleon hynny yn erbyn yr effaith cymharol y maent yn debygol o gael ar gyraeddiadau addysgol plant.

16. **Byddwn yn argymell** fod yna berygl fod gosod targed uwch na'r £4.3m am amharu'n ormodol ar yr adnodd dysgu allasai yn ei dro effeithio ar gyraeddiadau addysgol plant ac felly byddwn yn argymell fod y cabinet yn gosod targed o £4.3m fydd yn parhau i gynnig gwarchodaeth sylweddol i'r gyllideb ysgolion (o'i gymharu gyda gwasanaethau eraill y Cyngor) wrth gyfrannu rhywfaint tuag at wynebu'r her sydd o'n blaenau.

17. **Argymhellaf hefyd** fod y cabinet yn gofyn i'r Aelod Cabinet dros Addysg arwain darn o waith ar y cyd gyda'r Fforwm Cyllido Ysgolion i ddatblygu cynlluniau i wireddu'r targed yma.

## Barn y swyddogion statudol

### Y Prif Weithredwr:

Yn amlwg, mae hwn yn benderfyniad eithriadol o anodd o ran y cydbwysedd rhwng y pwysau ariannol ar ysgolion ar y naill llaw a'r pwysau ar wasanaethau eraill sydd, fel y gwelir o'r adroddiad, yn wynebu canrannau sylweddol uwch o ran arbedion. Wrth gwrs, mae unrhyw elfen o warchodaeth ar ysgolion yn gosod mwy o bwysau ar wasanaethau eraill o ran arbedion effeithlonrwydd a hefyd, maes o law, ar doriadau. Wedi dweud hynny, rhaid gosod y targed yn rhywle ac mae'r hyn a argymhellir yn cynnig parhad o roddi gwarchodaeth sylweddol i ysgolion ac yn gyson gyda'r hyn sydd wedi ei awgrymu mewn adroddiadau blaenorol.

### Y Swyddog Monitro:

Wrth adnabod targed arbedion ar gyfer y Gwasnaeth Ysgolion mae'r adroddiad yn gosod gofyn ar yr Arweinnydd Cabinet Addysg i sefydlu cyfundrefn gynhwysol i adnabod cynlluniau penodol ar gyfer cyrraedd y targed. Disgwylir y bydd unrhyw ofynnion cyfreithiol ynglyn ac adnabod neu wireddu cynlluniau yn cael eu cloriannu a chyfarch wrth ddarparu i ymateb i'r targed ac adnabod cynlluniau penodol .

### Y Pennaeth Cyllid:

Yn yr hinsawdd ariannol gyfredol, gellid dadlau bod yr argymhelliad i osod targed arbedion o £4.3m ar gyfer ysgolion (sy'n 6%, neu yn cyfateb i 2% y flwyddyn dros y 3 mlynedd 2015/16, 2016/17 a 2017/18) yn setliad gymharol dda i ysgolion Gwynedd, gan gofio fod ysgolion yn cynrychioli oddeutu 35% o gyllidebau gwasanaethau'r Cyngor. Wedi dweud hynny, mae'n amlwg bydd hyn yn her i'n penaethiaid a'r llywodraethwyr, a byddaf yn cynorthwyo'r Fforwm Cyllideb Ysgolion gyda'r dasg i ddatblygu cynlluniau i briodoli a gwireddu'r targed yma dros y cyfnod dan sylw. Yn y cyswllt yma, nodaf fod amserlen tynn i ddarparu gwybodaeth amserol dros y misoedd nesaf, er mwyn i'r ysgolion allu cynllunio yn briodol ar gyfer 2015/16.

Ar wahân i'r uchod, rwy'n ceisio argyhoeddi Llywodraeth Cymru i drosglwyddo rhai grantiau penodol i'r setliad cyffredinol, gan fyddai hynny yn galluogi ysgolion i ystyried eu holl adnoddau wrth gynllunio i'r dyfodol. Os na fydd yn bosib rhyddhau'r arian grant i'w flaenoriaethu'n lleol, yna rwy'n ceisio argyhoeddi Llywodraeth Cymru i leihau'r biwrocratiaeth ynghylch rheoli grantiau penodol, er mwyn sicrhau arbedion yn y canol, a rhyddhau amser ysgolion i ganolbwyntio ar ansawdd addysg, ayb.

---